Dyfarniad gan Weinidogion Cymru o dan adran 195 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

1. Mae hwn yn ddyfarniad ynghylch anghydfod rhwng ALl1 ac ALl2 mewn perthynas â phreswylfa arferol X a thrwy hynny'r cyfrifoldeb ariannol dros y gofal a'r cymorth a roddir iddi ar y pwynt lle mae cyfalaf X yn disgyn o dan y trothwy hunan-ariannu.

Dogfennau

2. Mae'r cefndir ffeithiol y cytunwyd arno wedi'i nodi mewn datganiad o ffeithiau a chronoleg.

3. Nid yw'r naill barti na'r llall wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig at ddiben penodol y dyfarniad hwn; maent yn dibynnu ar ddadleuon sy'n cael eu nodi mewn e-byst sy'n cael eu cyfnewid rhyngddynt.

4. Mae bwndel y dyfarniad yn cynnwys hefyd gopïau o lythyrau a anfonwyd at X gan ALl2, Cynllun Gofal a Chymorth, cofnod asesu a dogfen adolygu.

Y ffeithiau y cytunwyd arnynt

5. Ganed X ar 21 Tachwedd 1947. Mae'r partïon yn cytuno nad oes gan X y galluedd meddyliol i benderfynu ble i fyw a bod hyn wedi bod yn wir drwy gydol y cyfnod sy'n berthnasol i'r anghydfod hwn. Mae gan ferch X Atwrneiaeth Arhosol mewn perthynas â'i heiddo a'i chyllid.

6. Bu X yn preswylio am lawer o'i bywyd mewn ardal y tu allan i ALl1 ac ALl2. Symudodd i ardal ALl2 ar ôl marwolaeth ei gŵr a dyma'r ardal lle oedd hi'n preswylio'n arferol. Roedd hi'n berchen ar ei chartref yno.

7. Ar 5 Tachwedd 2021, cynhaliwyd cyfarfod budd pennaf a phenderfynwyd bod ar X angen gofal preswyl amser llawn.

8. Nododd teulu X leoliad preswyl ("y Cartref Gofal"). Trefnodd ALl2 leoliad X yn y Cartref Gofal ac fe symudodd X yno ar 23 Tachwedd 2021. Mae'r Cartref Gofal yn ardal ALl1.

9. Roedd ALl2 yn ariannu lleoliad X yn y Cartref Gofal gan gymhwyso'r diystyriad eiddo o 12 wythnos a threfnu Cytundeb Taliad Gohiriedig nes y byddai gwerthu hen gartref X yn darparu swm o gyfalaf y gellid talu ffioedd y Cartref Gofal ohono. Mae ffioedd y Cartrefi Gofal yn parhau i gael eu talu o'r swm hwn o gyfalaf ond rhagwelir y bydd wedi gostwng o dan y trothwy cymwys o fewn y 12 i 18 mis nesaf.

10. Ysgrifennodd ALl2 at X a'i merch ar 12 Mawrth 2022 yn datgan ei fod yn terfynu ei gontract gyda'r Cartref Gofal. Mae'r llythyr yn cynnwys y datganiad canlynol:

*Byddwch yn aros yn y cartref gofal a bydd angen i chi drefnu contract preifat gyda nhw a bydd holl gyfranogiad [ALI2] yn dod i ben, gan y byddwch yn 'preswylio'n arferol' yn yr ardal lle mae'r cartref wedi'i leoli. Mae hyn yn golygu mai ardal yr Awdurdod Lleol yr ydych yn byw ynddi fyddai'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau.*

11. Ar 26 Ionawr 2023, cafodd ALI1 atgyfeiriad gan ferch X a oedd yn credu, drwy gamgymeriad, fod cyfalaf ei mam yn agosáu at y pwynt lle y byddai'n gostwng o dan y trothwy hunan-ariannu.

12. Yn dilyn hynny, bu gohebiaeth rhwng ALI1 ac ALI2 ond nid oeddent yn gallu dod i gytundeb ynghylch pa un o'r ddau awdurdod fyddai'n dod yn gyfrifol am dalu ffioedd y Cartref Gofal pan fyddai cyfalaf X wedi gostwng o dan y trothwy.

<u>Y mater i ddyfarnu arno</u>

13. Yr unig fater y mae'r ddau barti wedi gwahodd dyfarniad arno yw *"a yw'r ddarpariaeth 'dybio' yn Adran 194 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gymwys mewn perthynas ag [X]*".

14. Os yw'r ddarpariaeth dybio yn gymwys, bydd X yn parhau i breswylio'n arferol yn ALI2 a bydd gan ALI2 gyfrifoldeb dros dalu ffioedd y Cartref Gofal pan fydd cyfalaf X wedi gostwng yn is na'r trothwy.

15. Os nad yw'r ddarpariaeth dybio yn gymwys, bydd X wedi caffael Preswylfa Arferol yn ardal ALI1 a bydd y cyfrifoldeb cyllido yn y dyfodol yn disgyn i ALI1.

<u>Y gyfraith a chanllawiau</u>

16. Mae'r rhannau perthnasol o adran 35 o <u>Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</u> ("Deddf 2014") yn darparu:

***Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn***

*(1) Rhaid i awdurdod lleol ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth os caiff ei fodloni bod amodau 1, 2 a 3 wedi eu cyflawni (ond gweler is-adran (6)).*

*(2) Amod 1 yw bod yr oedolyn—*

*(a) yn preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol, …*

*(3) Amod 2 yw—*

*(a) bod yr anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwystra, …*

*(4) Amod 3 yw—*

*(a) nad oes unrhyw ffi yn cael ei chodi am y gofal a'r cymorth y mae eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny, neu*

*(b) bod ffi yn cael ei chodi am y gofal a'r cymorth hwnnw ond—*

*(i) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni ar sail asesiad ariannol bod adnoddau ariannol yr oedolyn ar neu islaw'r terfyn ariannol,*

*(ii) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni ar sail asesiad ariannol bod adnoddau ariannol yr oedolyn uwchlaw'r terfyn ariannol ond bod yr oedolyn, serch hynny, yn gofyn i'r awdurdod ddiwallu ei anghenion, neu*

*(iii) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan yr oedolyn alluedd i drefnu ar gyfer darparu gofal a chymorth ac nad oes unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi i wneud trefniadau o'r fath o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 neu sydd fel arall mewn sefyllfa i wneud hynny ar ran yr oedolyn.*

17. Mae adran 194 o Ddeddf 2014 yn cynnwys y ddarpariaeth dybio sy'n destun yr anghydfod hwn. Mae adran 194(1) yn darparu:

*Pan fo gan oedolyn anghenion am ofal a chymorth nad oes modd eu diwallu ond os yw'n byw mewn llety o fath a bennir mewn rheoliadau a bod yr oedolyn yn byw mewn llety yng Nghymru o fath a bennir felly, mae'r oedolyn i'w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel un sy'n preswylio fel arfer—*

*(a) yn yr ardal lle'r oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn iddo ddechrau byw mewn llety o fath a bennir yn y rheoliadau.*

18. Cafodd Rheoliadau Gofal a Chymorth (Preswylfa Arferol) (Llety Penodedig) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau Llety Penodedig Cymru") eu gwneud ar 7 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016. Maent yn darparu:

*At ddibenion adran 194(1) o'r Ddeddf (preswylfa arferol), mae llety cartrefi gofal yn llety o fath penodedig.*

19. Nid yw ystyr "preswylfa arferol" wedi'i diffinio o fewn Deddf 2014 ac nid oes unrhyw benderfyniad gan lys uwch yn ymwneud â'i ddiffiniad o dan ddeddfwriaeth Cymru. Er hynny, mae corff sylweddol o gyfraith achosion yn ymwneud â'r diffiniad o breswylfa arferol at ystod o ddibenion eraill.

20. Yr awdurdod arweiniol yw R (Shah) v London Borough of Barnet [1982] UKHL 14 a oedd yn ymwneud â'r defnydd o derm tebyg yng nghyd-destun mynediad at grantiau ar gyfer addysg bellach. Mynegodd yr Arglwydd Scarman ystyr preswylio'n arferol" ("ordinarily resident") yn y termau canlynol ("prawf Shah"):

*"Unless, therefore, it can be shown that the statutory framework or the legal context in which the words are used requires a different meaning, the term 'ordinarily resident' refers to a man's abode in a particular place or country which he has adopted voluntarily and for settled purposes as part of the regular order of his life for the time being, whether of short or long duration".*

21. Ystyriwyd cymhwyso'r prawf Shah yng nghyd-destun unigolyn nad oedd ganddo'r galluedd i benderfynu ble i fyw yn R v Waltham Forest Borough Council, ex p Vale (1985) The Times, 25 Chwefror 1985, [1985] Lexis Citation 443. Cafodd y mater ei ailystyried gan y Goruchaf Lys yn R (Cornwall Council) v Secretary of State for Health and another [2015] UKSC 46 ac yn achos R

(on the application of Worcestershire County Council) v Secretary of State for Health and Social Care [2023] UKSC 31.

22. Ni ellir cymhwyso'r prawf Shah heb ei addasu yn achos person sydd heb alluedd oherwydd gan na ellir dweud bod unigolyn o'r fath wedi "*mabwysiadu'n wirfoddol*" y man lle mae'n byw. Mae achosion Vale a Chernyw yn awgrymu "*complementary common sense approaches to the application of the Shah test to a person unable to make decisions for herself*" (Cernyw paragraff 47). Mae'r prawf preswylfa arferol yn Shah i'w gymhwyso heb ystyried a yw'r person o dan sylw wedi mabwysiadu man preswylio yn wirfoddol ond gan gyfeirio at y ffactorau cyd-destunol eraill, megis diben y symud i'r lle o dan sylw. Mae achos Swydd Gaerwrangon yn awgrymu bod ystyriaeth yn cael ei roi yn y cyd-destun hwn i *"the state of mind of whoever has the power to make relevant decisions on behalf of the person concerned. Under the Mental Capacity Act 2005 that power would lie with any person who has a lasting power of attorney or with deputy appointed by the Court of Protection or with the court itself."* (Swydd Gaerwrangon, paragraff 58).

23. Mae darpariaethau tybio tebyg i'r hyn a nodir yn adran 194 o Ddeddf 2014 wedi bod yn destun craffu barnwrol. Ystyriwyd bwriad y ddarpariaeth dybio a gynhwysir yn Neddf Cymorth Gwladol 1948 yn R (Kent County Council) v Secretary of State for Health [2015] EWCA Civ 81. Ym mharagraff 13, dyfarnodd y llys:

    *The purpose of the deeming provision is to provide continuity of financial responsibility whilst a person is being provided with accommodation under section 21 of the 1948 Act. It is not uncommon for those who are eligible for such assistance, for practical reasons or reasons connected with securing their best interests, to be placed outside the area of the local authority with the statutory responsibility. The deeming provision avoids complications arising in connection with funding in those circumstances. It also avoids the possibility of a local authority placing someone outside its own area to ease its financial burdens.*

24. Yn achos Cernyw, mynegodd y Llys (ym mharagraff 55) farn debyg yng nghyd-destun lleoliadau plant:

    *It would run counter to the policy discernible in both Acts (i.e. the Care Act 2014 and the National Assistance Act 1948) that the ordinary residence of a person provided with accommodation should not be affected for the purposes of an authority's responsibilities by the location of that person's placement. It would also have potentially adverse consequences. For some needy children with particular disabilities the most suitable placement may be outside the boundaries of their local authority, and the people who are cared for in some specialist settings may come from all over the country. It would be highly regrettable if those who provide specialist care under the auspices of a local authority were constrained in their willingness to receive children from the area of another authority through considerations of the long term financial burden which would potentially follow.*

25. Y mater i'w benderfynu gan y llys yn achos Swydd Gaerwrangon oedd a oedd darpariaethau tybio Deddf Gofal 2014 a Deddf Cymorth Gwladol 1948 i'w trosi yng nghyd-destun darparu gwasanaethau ôl-ofal o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 198 nad yw, yn wahanol i Ddeddf 2014 sydd dan sylw yn y mater hwn, yn cynnwys darpariaethau tybio penodol.

26. Mae'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2014 yn nodi mewn perthynas ag adran 194:

*504.Mae is-adran (1) yn nodi pryd y mae oedolyn i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer, os yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu ei anghenion am ofal a chymorth yn gwneud trefniadau i'r oedolyn fyw mewn llety o fath penodol. O ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae'n bosibl y bydd yr oedolyn yn symud i ardal arall. Yn y sefyllfa hon, effaith y ddarpariaeth hon yw y caiff yr oedolyn ei drin, at ddibenion y Ddeddf hon, fel pe bai'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol a wnaeth y trefniadau (ac nid yn yr ardal y mae wedi symud iddi).*

*509.Mae'r ddarpariaeth a wneir gan yr adran hon yn seiliedig ar ddarpariaeth a wnaed yn adran 24 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ac adran 105 o Ddeddf Plant 1989.*

27. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Rheoliadau Llety Penodedig yn cadarnhau:

*Pan fo gan oedolyn anghenion am ofal a chymorth na ellir eu diwallu ond drwy fyw mewn llety o fath penodedig a'i fod yn byw mewn llety o fath penodedig yng Nghymru, mae'r oedolyn i'w drin (yn rhinwedd adran 194(1) o'r Ddeddf) fel un sy'n preswylio fel arfer yn yr ardal lle'r oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn iddo ddechrau byw yn y math penodedig o lety.*

28. Mae'r adrannau perthnasol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 11 Cod Ymarfer (Amrywiol a Chyffredinol) a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2014, yn datgan fel a ganlyn:

*Mae is-adran 194(1) yn nodi pryd y mae oedolyn i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer, os yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu ei anghenion am ofal a chymorth yn gwneud trefniadau i'r oedolyn fyw mewn llety o fath penodol. O ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae'n bosibl y bydd yr oedolyn yn symud i ardal arall. Yn y sefyllfa hon, effaith y ddarpariaeth hon yw y caiff yr oedolyn ei drin, at ddibenion Deddf 2014, fel pe bai'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol a wnaeth y trefniadau (ac nid yn yr ardal y mae wedi symud iddi).*

*<u>Preswylfa arferol wrth drefnu llety mewn ardal arall</u>*

*Bydd yna rai achosion lle bydd yr awdurdod lleol o'r farn y gellid diwallu anghenion gofal a chymorth person trwy ddarparu llety yn ardal awdurdod arall. Os bydd gan y person anghenion sydd ond yn gallu cael eu diwallu trwy fathau penodol o lety, bydd gan y person hwnnw yr hawl i wneud dewis ynglŷn â'i lety, yn ogystal â chymryd rhan yn y broses gynllunio. Mae'r hawl hon yn galluogi'r person i wneud dewis ynglŷn â mathau penodol o lety, gan gynnwys lle mae'r llety hwn wedi'i leoli yn ardal awdurdod arall. Cyn belled â bod*

*amodau penodol yn cael eu bodloni, rhaid i'r awdurdod lleol drefnu'r llety y mae'r person wedi'i ddewis. (Gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015 a'r codau ymarfer mewn perthynas â Rhannau 4 a 5 ar daliadau uniongyrchol, dewis o lety, asesiad ariannol a chodi ffioedd).*

*Bydd hyn yn golygu y bydd hi'n ofynnol i awdurdodau lleol, o dan rai amgylchiadau, drefnu llety a leolir mewn ardal wahanol. Yn ogystal, bydd yna sefyllfaoedd eraill lle bydd awdurdod lleol yn dewis trefnu llety i berson mewn ardal arall gan fod hynny wedi'i gytuno gyda'r person dan sylw. Mewn achos o'r fath, dylai fod yn glir pa awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am ddiwallu anghenion y person yn y dyfodol.*

*… os oes gan oedolyn anghenion sydd ond yn gallu cael eu diwallu trwy ddarparu llety cartref gofal, ac os trefnir y llety yn ardal awdurdod lleol arall, bod yr egwyddor o "dybio" preswylfa arferol yn berthnasol. Felly, bydd yr oedolyn yn cael ei drin fel petai'n dal i fyw yn yr ardal lle'r oedd yn byw cyn i'r lleoliad ddechrau. Canlyniad hyn yw y bydd yr awdurdod lleol sy'n trefnu'r llety yn dal i fod yn gyfrifol am ddiwallu anghenion y person, ac ni fydd y cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r awdurdod y mae'r llety wedi'i leoli yn ei ardal. Bydd cyfrifoldeb yr awdurdod 'lleoli' yn parhau fel hyn cyhyd ag y bydd anghenion yr oedolyn yn cael eu diwallu gan y math penodedig o lety.*

*Mae'r egwyddor o "dybio" preswylfa arferol yn berthnasol fel arfer pan fydd yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu'r llety yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r egwyddor yn berthnasol hefyd lle mae person yn derbyn taliad uniongyrchol ac yn trefnu ei ofal a'i gymorth ei hun. Mewn achosion o'r fath, yr unigolyn fydd yn dewis sut y bydd ei anghenion yn cael eu diwallu, ac yn trefnu ei ofal a'i gymorth ei hun. Os yw'r cynllun gofal a chymorth yn nodi y bydd anghenion y person ond yn gallu cael eu diwallu os yw'r oedolyn yn byw mewn llety cartref gofal, ac os yw'r person yn dewis trefnu'r llety hwnnw yn ardal awdurdod lleol gwahanol i'r un sy'n gwneud y taliad uniongyrchol, bydd yr un egwyddor yn berthnasol – h.y. bydd yr awdurdod lleol sy'n diwallu anghenion gofal a chymorth y person trwy wneud taliad uniongyrchol yn cadw'r cyfrifoldeb. Fodd bynnag, os dewisodd y person lety sydd y tu allan i'r hyn a nodir yn y cynllun gofal a chymorth neu fath o lety na nodwyd yn y rheoliadau (er enghraifft, os yw'r person yn symud i mewn i drefniant bywydau a rennir neu lety byw â chymorth), ni fyddai'r egwyddor "dybio" yn gymwys.*

*Os pennir y gallai anghenion yr unigolyn gael eu diwallu orau trwy aros gyda'r gwasanaeth newydd, ac os bydd yr unigolion yn dewis aros yn y lleoliad hwnnw, bydd statws yr unigolyn yn newid o fod yn breswylydd cartref gofal i fod yn denant mewn llety byw â chymorth. Felly, bydd preswylfa arferol yr unigolyn wedi newid a bydd y cyfrifoldeb dros ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol lle mae'r unigolyn yn byw. Os penderfynir, yn dilyn ailasesiad, y bydd anghenion y person ond yn gallu cael eu diwallu trwy lety mewn cartref gofal, bydd angen i'r awdurdod lleol lleoli drefnu lleoliad cartref gofal gwahanol ar gyfer y person hwnnw. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y darpariaethau barnu yn dal i fod yn berthnasol a bydd y cyfrifoldeb dros ddiwallu anghenion gofal a chymorth y person hwnnw yn aros gyda'r awdurdod lleoli.*

29. Mae Atodiad 2 i'r Cod Ymarfer yn cynnwys y canlynol:

Lleoliadau a drefnir gan yr unigolion eu hunain.

*Nid yw'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i unigolion sy'n trefnu eu gofal eu hunain. Bydd unigolion sy'n trefnu ac yn talu am eu gofal eu hunain fel rheol yn dod yn breswylydd fel arfer yn yr ardal y maent yn symud iddi ac yn gyfrifoldeb yr ardal honno. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i unigolion sy'n talu am eu gofal preswyl eu hunain os yw awdurdod lleol yn trefnu'r gofal hwnnw.*

30. Mae'r ddadl a gyflwynwyd gan ALl2, a nodir isod, yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr. Mae'r ddeddfwriaeth honno'n wahanol i ddeddfwriaeth Cymru mewn un ffordd berthnasol. Mae'r darpariaethau tybio o dan adran 194 o Ddeddf 2014 yng Nghymru a'r rhai o dan adran 39 o Ddeddf Gofal 2014 yn Lloegr yn adlewyrchu ei gilydd. Mae adran 39(1) yn darllen:

*Pan fo gan oedolyn anghenion am ofal a chymorth nad oes modd eu diwallu ond os yw'n byw mewn llety o fath a bennir mewn rheoliadau a bod yr oedolyn yn byw mewn llety yng Nghymru o fath a bennir felly, mae'r oedolyn i'w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel un sy'n preswylio fel arfer—*

*(a) yn yr ardal lle'r oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn iddo ddechrau byw mewn llety o fath a bennir yn y rheoliadau,*

31. Er hynny, mae gwahaniaeth yn bodoli yng ngeiriad y setiau priodol o is-reoliadau sy'n diffinio "Llety Penodedig" ("Specified Accommodation"). Yn achos deddfwriaeth Lloegr, cyflwynodd Rheoliadau Gofal a Chymorth (Diwygiadau Amrywiol) 2015 newid i Reoliadau Gofal a Chymorth (Preswylfa Arferol) (Llety Penodedig) 2014. Gwnaed y rheoliadau diwygio ar 10 Mawrth 2015 a'u heffaith yw mewnosod Rheoliad 2(2) sy'n pennu:

*The types of accommodation referred to in paragraph (1) are specified in relation to an adult for the purposes of section 39(1) of the Act only if the care and support needs of the adult are being met under Part 1 of the Act while the adult lives in that type of accommodation.*

32. Mae'r rheswm dros ychwanegu Rheoliad 2(2) wedi'i nodi yn y Nodiadau Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi:

*Regulation 4 amends the Care and Support (Ordinary Residence) (Specified Accommodation) Regulations 2014. These Regulations set out the types of accommodation to which the ordinary residence rule in section 39(1) of the Act applies. The effect of the amendments is that the deeming of ordinary residence applies only from when the person living in one of the specified types of accommodation begins to receive care and support under the Act.*

33. Nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfatebol o dan gyfraith Cymru.

34. Mae'r Canllawiau Statudol Gofal a Chymorth a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gofal 2014 yn yr un termau â Chod Ymarfer Cymru ond mae'n cynnwys, yn Atodiad J2, ganllawiau pellach ar breswylfa arferol ar gyfer "People who are

accommodated under the 12 week property disregard". Mae'r adran berthnasol yn darllen:

*18. At the end of 12 weeks, the value of the person's home is taken into account ... This may result in the person becoming liable to pay for all of the costs of their care and choosing to enter into a private contract with the care home for the provision of their care on a permanent basis, rather than continuing to be provided with accommodation by their placing authority. In such a case the person would be likely to acquire an ordinary residence in the new area, in line with the settled purpose test in Shah.*

*19. If the person's needs or circumstances change and they subsequently require additional or different care and support, including residential care, they should approach the local authority where their care home is situated. However, if they enter into a deferred payment agreement with the original authority or there is another reason such as lack of mental capacity as to why they were unable to enter into a private contract with the care home, they will remain the responsibility of the original authority.*

<u>Cyflwyniadau'r partïon</u>

35. Mae dadleuon priodol ALl1 a ALl2 wedi'u nodi yn yr ohebiaeth sy'n rhagflaenu'r penderfyniad hwn.

36. Mae ALl1 yn dadlau:

    a. bod X yn preswylio'n arferol o fewn ardal ALl2, yn rhinwedd gweithrediad y ddarpariaeth dybio.

    b. bod sefyllfa X yn debyg i sefyllfa'r unigolyn a oedd yn destun dyfarniad gan Weinidogion Cymru dyddiedig 9 Chwefror 2021, lle nad arweiniodd newid mewn trefniadau cyllido at ddatgymhwyso'r darpariaethau tybio.

37. Mae ALl2 yn dadlau bod y ddarpariaeth dybio wedi peidio â bod yn gymwys i X pan ddechreuodd hi hunan-ariannu. Mewn e-bost dyddiedig 8 Mawrth 2023, mynegodd ALl2 ei safbwynt fel a ganlyn:

    *Yn achos [X] roedd dod yn hunan-ariannwr yn "doriad yn y gadwyn" at ddibenion y ddarpariaeth dybio yr ydych yn cyfeirio ati. Ni all y darpariaethau tybio fod yn gymwys am gyfnod amhenodol cyn belled â bod person yn aros yn yr un lleoliad pan fo ffynhonnell wahanol o gyllid neu le nad oes cyfranogiad pellach gan yr awdurdod lleoli.*

    *Ni chaiff [Adran 194] fod yn gymwys os oes gan y person anghenion gofal a chymorth na ellir eu diwallu ond os yw'r oedolyn yn byw mewn llety o fath a bennir mewn rheoliadau. O dan Reoliadau Gofal a Chymorth (Preswylfa Arferol) (Llety Penodedig) (Cymru) 2014, un o'r mathau o lety a bennir yw cartref gofal. Er hynny, nid oedd anghenion gofal a chymorth [X] bellach yn cael eu diwallu gan [AL2] o dan Ran 4 o Ddeddf 2014 tra oedd hi'n aros yn y llety fel hunan-ariannwr. Yn Lloegr, mae'r pwynt hwn wedi'i gadarnhau gan*

*ddiwygiad i Reoliadau Gofal a Chymorth (Preswylfa Arferol) (Llety Penodedig) 2014 sy'n nodi yn rheoliad 2(2):*

*'The types of accommodation referred to in paragraph (1) are specified in relation to an adult for the purposes of section 39(1) of the Act only if the care and support needs of the adult are being met under Part 1 of the Act while the adult lives in the type of accommodation".*

*Mae'r drefn breswylio gyffredin yn debyg i'r drefn yng Nghymru ac felly yn y bôn mae rhaid i hynny fod yn wir yng Nghymru hefyd. Mae'r farn hon yn cael ei hatgyfnerthu gan y ffaith bod Cod Ymarfer Rhan 11 yn mabwysiadu geiriad sydd bron yr un fath â'r geiriad yn y Canllawiau Saesneg …*

<u>Cymhwyso'r gyfraith i'r achos hwn.</u>

38. Tra oedd yn preswylio'n arferol yn ardal ALl2, aseswyd bod gan X (gan ddefnyddio geiriau adran 194) anghenion gofal a chymorth y gellid eu diwallu o fewn cartref gofal yn unig.

39. Yn rhinwedd adran 194, mae X i'w thrin fel pe bai'n dal i breswylio'n arferol yn yr ardal yr oedd yn preswylio'n arferol ynddi yn union cyn iddi ddechrau byw mewn llety o'r math a bennir yn Rheoliadau Llety Penodedig Cymru, sef llety cartref gofal.

40. Roedd hi'n preswylio'n arferol yn ardal ALl2 cyn iddi ddechrau byw yn y Cartref Gofal, ar 23 Tachwedd 2021, ac mae hi wedi aros yn y llety hwnnw ers hynny. Cafodd y lleoliad ei nodi gan deulu X a'i drefnu gan ALl2. Mae X wedi aros heb alluedd i drefnu ei gofal ei hun drwy gydol y cyfnod hwn.

41. Bu gan X ddigon o gyfalaf i dalu'r ffioedd sy'n daladwy i'r Cartref Gofal ers mis Mawrth 2022 ac mae'n debygol o fod yn hunan-ariannu am gyfnod sylweddol pellach. Nid yw adran 194 o Ddeddf 2014 a Rheoliadau Llety Penodedig Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r awdurdod lleol ariannu'r lleoliad yn barhaus, er mwyn i'r ddarpariaeth barhau i fod yn gymwys. Yr unig ofyniad yw angen parhaus am ofal a chymorth y gellir eu bodloni mewn cartref gofal yn unig (sut bynnag y caiff ei ariannu).

42. Er bod y Cod Ymarfer yn ystyried yn benodol ddefnyddio'r ddarpariaeth dybio mewn amgylchiadau lle mae unigolyn yn symud o lety cartref gofal i ryw fath arall o gymorth, nid yw'n pennu datgymhwyso'r ddarpariaeth dybio yn achos cyfnod o hunan-ariannu.

43. Mae y tu hwnt i gylch gorchwyl y dyfarniad hwn ddyfalu beth fyddai'r canlyniad os byddai'r un sefyllfa yn codi yn Lloegr. Hyd yn oed pe gellid dangos bod diwygio rheoliadau Lloegr wedi'i gynllunio i achosi toriad yn y ddarpariaeth dybio yn ystod cyfnod o hunan-ariannu, byddai hyn o berthnasedd cyfyngedig. Nid oes unrhyw newid cyfatebol wedi'i wneud yng Nghymru, er i'r diwygiad i reoliadau Lloegr ragflaenu dyfodiad i rym y rheoliadau cyfatebol yng Nghymru.

44. Mae ystyried y ddeddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr, felly, o gymorth cyfyngedig i'r dyfarniad hwn, sy'n gorfod bod yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru yn unig.

45. Diben sylfaenol y ddarpariaeth dybio yw creu system lle nad yw'r awdurdodau lleol yn dianc rhag cyfrifoldeb ariannol hirdymor drwy osod unigolion y tu allan i'w hardaloedd eu hunain. Byddai'r diben hwnnw'n cael ei drechu pe bai cyfnod o hunan-ariannu (o hyd byr iawn o bosibl) yn torri ar draws cymhwyso'r ddarpariaeth dybio.

Dyfarniad

46. Am y rhesymau a nodir uchod, mae Gweinidogion Cymru wedi dyfarnu:

a. bod y ddarpariaeth dybio o dan adran 194 yn gymwys yn achos X;
b. bod preswylfa arferol X yn dal i fod yn ardal ALl2;
c. mai ALl2 a ddaw'n gyfrifol unwaith eto am ariannu ei gofal pan fydd ei chyfalaf yn gostwng o dan y trothwy cymwys.

**Dyddiedig: 04 Rhagfyr 2023**